

10 ffordd i arbed arian trwy ddefnyddio llai o nwy a thrydan yn ystod y cyfyngiadau coronafeirws




Fersiwn DarllenHawdd

Am y daflen hon




Rydyn ni i gyd yn treulio mwy o amser adref i helpu stopio coronafeirws rhag lledu.



Yn ôl pob tebyg mae hynny'n golygu eich bod chi'n defnyddio mwy o nwy a thrydan na fel arfer ac efallai eich bod chi'n poeni am hynny.




Mae'r daflen yma yn esbonio 10 peth syml y gallwch chi wneud a fydd yn helpu gwneud eich biliau ynni'n llai. Efallai y byddwch chi eisiau cael rhywun arall gyda chi pan fyddwch chi'n edrych ar y daflen yma.




Mae'n fersiwn darllen hawdd o daflen arall gan **Ynni Clyfar GB, yr ymgyrch dros Brydain Glyfrach a Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni**, yr elusen genedlaethol sy'n helpu pobl i aros yn gynnes yn eu cartrefi.

10 awgrymiad i ostwng biliau ynni

Awgrymiad 1



Trowch bethau fel eich cyfrifiadur a theledu i ffwrdd wrth y wal yn hytrach na gadael nhw yn y modd parod (standby). Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £30 y flwyddyn.



Awgrymiad 2

Gadewch eich bwyd i oeri cyn ei roi yn y rhewgell fel nad yw'n gorfod gweithio mor galed.



Awgrymiad 3

Berwch ddim ond y dŵr sydd ei angen arnoch yn eich tegell. Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £6 y flwyddyn.



Awgrymiad 4

Sychwch eich dillad ar linell sychu yn lle defnyddio peiriant sychu. Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £35 y flwyddyn.




Awgrymiad 5

Treuliwch 1 munud yn llai yn y cawod bob dydd. Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £7 y person bob blwyddyn.



Awgrymiad 6

Golchwch eich dillad ar 30°C yn lle 40°C. Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £9 y flwyddyn.




Awgrymiad 7

Peidiwch â gadael eich ffôn symudol wedi'i blygio i mewn trwy'r nos. Dim ond tua dwy awr o wefru sydd ei angen ar gyfer y mwyafrif o ffonau.



Awgrymiad 8

Defnyddiwch bowlen i olchi llestri yn lle golchi nhw o dan y tap. Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £25 y flwyddyn.



Awgrymiad 9


Trowch y golau i ffwrdd pan fyddwch chi allan o'r ystafell. Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £14 y flwyddyn.




Awgrymiad 10

Defnyddiwch eich peiriant golchi unwaith yn llai bob wythnos. Trwy wneud hyn gallwch chi arbed tua £5 y flwyddyn.

Ydych chi'n poeni am dalu eich biliau?



Os ydych yn poeni am dalu eich biliau nwy a thrydan, siaradwch â'ch cyflenwr ynni.



Byddan nhw'n dweud wrthy'ch chi os oes unrhyw ffordd y gallan nhw eich helpu chi.

I wybod os ydych chi'n cael yr holl fudd-daliadau mae gennych hawl I'w derbyn:



- ffoniwch y **Tîm Mwyafu Incwm Cartrefi Clyd a Chynnes** ar **0800 138 8218**




- ewch i wefan **Cyngor ar Bopeth** yn **www.citizensadvice.org.uk/cymraeg**



Mae'r **Gwasanaeth Cyngor ar Gartrefi Clyd a Chynnes** wedi'i redeg gan elusen o'r enw Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni sydd eisiau sicrhau y gall pawb fforddio byw mewn cartref sych a chynnes.




Gallwch chi gael mwy o wybodaeth ar eu gwefan yn:
www.nea.org.uk/advice/wash-advice/



Mae'r daflen yma ar gael yn y Ganolfan adnoddau mewn fformatau eraill:
www.smartenergyGB.org/cy

Ffynonellau



Mae'r wybodaeth yn y llyfryn yma yn dod gan yr **Ymddiriedolaeth Arbed Ynni** a **Which?** Ebrill 2020.



Mae'r arian y gallwch chi arbed yn berthnasol i Brydain Fawr ac fe allai fod yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.



Mae'r gwaith celf yn cynnwys deunydd o Gasgliad DarllenHawdd Inspired Services ac ni all gael ei ddefnyddio unrhyw le arall heb gael caniatâd ysgrifenedig gan Inspired Services.

www.inspiredservices.org.uk/inspiredpics/